

Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd



Pecyn Recriwtio Ymddiriedolwyr Myfyrwyr
..... **EBRILL 2019**

Annwyl fyfyrwr

Diolch am eich diddordeb mewn bod yn Ymddiriedolwr i Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae Bwrdd gweithredol a chryf yn hanfodol wrth i ni adeiladu ar lwyddiannau diweddar a pharhau i lwyddo. Rydym yn edrych am Ymddiriedolwyr Myfyrwyr newydd i ddarparu mwy o gryfder a dyfnder i'r Bwrdd a sicrhau fod yr Undeb yn parhau i ddatblygu.

Mae Undeb y Myfyrwyr yn sefydliad nid-er-elw gydag aelodau, yn annibynnol oddi wrth Prifysgol Caerdydd sydd â phoblogaeth myfyrwyr o dros 30,000 o fyfyrwyr llawn amser a rhan amser. Mae Undeb y Myfyrwyr yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer eu haelodau yn cynnwys cynrychiolaeth academiaidd, gweithrediad masnachol a chynghor ariannol a lles. Maent yn derbyn grant gan Brifysgol Caerdydd, ac yn cynhyrchu incwm arall drwy eu canolfannau masnachol megis lleoliadau, bariau, Siopswyddi a Gosod Tai Myfyrwyr Caerdydd. Llywodraethir yr Undeb gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr yn cynnwys Swyddogion Sabothol etholedig, Ymddiriedolwyr Myfyrwyr (y mae'r pecyn hwn yn ymwneud â) ac Ymddiriedolwyr penodedig allanol nad ydynt yn fyfyrwyr. Mae'r Bwrdd yn cael ei gefnogi gan yr Uwch Dîm Reoli, tua 100 o staff cyflogedig a tua 300 o staff myfyrwyr.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ar Undeb y Myfyrwyr ar cardiffstudents.com

Dylai'r pecyn a dolenni perthnasol eich darparu chi gyda phopeth sydd ei angen arnoch ar gyfer eich cais. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, neu hoffech gael sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r rôl, cysylltwch â Kate Owen, Pennaeth Cymorth Gweithredol suexecoffice@caerdydd.ac.uk neu 02920 781404..

I WNEUD CAIS:

- Anfonwch eich CV, yn ogystal â datganiad i gefnogi eich cais gan fanylu ar pam eich bod chi yn ymgeisio ar gyfer y swydd a sut ydych chi'n ateb y gofynnon at Kate Owen suexecoffice@caerdydd.ac.uk.
- Ni ddylai eich datganiad cefnogol fod yn ddim mwy na dau ochr o daflen A4.
- Dylai eich datganiad i gefnogi eich cais ddangos sut

ydych chi yn cyrraedd y gofyniadau a ddisgrifir yn manyleb y person yn y pecyn hwn

- Cwblhewch [Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal yma](#)
- Mae dyddiad cau ar gyfer y ceisiadau am 12 ganol dydd ar Dydd Gwener 3 Mai 2019

Rydym yn gobeithio y gwnewch chi gais am y swydd hon.

Yn gywir,



FADHILA AL DHAOURI

**Cadeirydd Bwrdd yr
Ymddiriedolwyr aLlywydd
yr Undeb**



DANIEL PALMER

Prif Weithredwr Undeb y Myfyrwyr

Ynglŷn â'r Undeb



Mae gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd (UMPC) weledigaeth o weithio â holl fyfyrwyr Caerdydd er mwyn gwella'u profiad yn y Brifysgol. Fel sefydliad annibynnol o'r brifysgol sy'n cael ei arwain gan fyfyrwyr, mae UMPC yn cynrychioli myfyrwyr ac yn darparu ystod eang a chynhwysol o weithgareddau a gwasanaethau sy'n cyfoethogi bywydau myfyrwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cyngor, hyfforddiant, datblygu sgiliau, cyfleoedd gwirfoddoli, cyflogadwyedd a gwasanaethau eraill sy'n hyrwyddo cynhwysiad, cyfeillgarwch a datblygiad personol. Mae UMPC yn cefnogi dros 200 o gymdeithasau myfyrwyr a 60 clwb chwaraeon gyda dros 10,000 o aelodau. UMPC yw llais cydnabyddedig myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, yn ymuno â myfyrwyr i ymgychu dros faterion sydd yn bwysig iddynt.

Mae UMPC wedi'i leoli ar Blas y Parc ac ar gampws Parc y Mynydd Bychan, yn cyflogi dros 100 aelod o staff parhaol a 300 o staff myfyrwyr. Mae cwmni is-fasnachu UMPC, Gwasanaethau Undeb Caerdydd Cyfyngedig, yn rheoli cyfleuster pwrpasol yng nghanol Caerdydd ac yn gweithredu caffis, siopau, bariâu a digwyddiadau sy'n helpu i ariannu gweithgareddau elusennol UMPC. Llwyddodd y sefydliad dderbyn achrediad 'Rhagorol' o dan farc safon Safon Undebau Myfyrwyr Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, yn ogystal â llwyddo Buddsoddwyr mewn Amrywiaeth Gradd 2, a Gwobr 'Aur' y Cynllun Achrediad Best Bar None. Mae UMPC yn anelu at gael dylanwad gadarnhaol ar y gymuned ehangach yng Nghaerdydd ac yn cael eu hystyried yn gyson fel yr Undeb y Myfyrwyr gorau yng Nghymru ac ym mhedwar uchaf yn y DU am foddhad myfyrwyr. Rydym ymysg 100 uchaf y Sunday Times o gwmnïau nid-er-elw i weithio ar eu cyfer.

[Rydyn ni wedi mabwysiadu Strategaeth tair blynedd newydd hyd at 2021.](#)

EIN GWELEDIGAETH STRATEGOL

YW I WEITHIO GYDA PHOB

MYFYRIWR CAERDYDD I EHANGU EU

PROFIAD YN Y BRIFYSGOL.

MAE EIN GWELEDIGAETH WEDI EI ATEGU GAN EIN GWERTHOEDD O ARWEINYDDIAETH MYFYRWYR, CYNHWYSIANT, PARTNERIAETH AC AMRYWIAETH.

Pedwar thema ein Diben Strategol yw:

- **Wrth Galon Bywyd Myfyrwyr** – I gynnal ein lle wrth galon profiad y myfyrwyr a pharatoi ar gyfer Canolfan Bywyd y Myfyrwyr.
- **Cartref Llais y Myfyrwyr** – Fe fyddwn yn datblygu ein rôl fel cartref llais y myfyrwyr, meithrin ein perthnasau ar draws y Brifysgol ac ehangu cyfathrebu gydag ein rhanddeiliaid.
- **Cyfleusterau a Gwasanaethau sy'n Arwain y Sector** – Fe fyddwn yn creu ac yn cefnogi datblygiad gweithgareddau sy'n arwain y sector a gwasanaethau sy'n helpu i fyfyrwyr lwyddo
- **Ymgysylltu gydag ein cymunedau llai cysylltiedig** – fe fyddwn yn ymgysylltu gyda myfyrwyr Parc y Mynydd Bychan, a chymunedau sy'n llai cysylltiedig fel bod yr Undeb yn golygu rhywbeth i bob myfyriwr yng Nghaerdydd.

Rôl Ymddiriedolwr Myfyriwr



Bydd yr ymgeisydd(wyr) llwyddiannus ar gyfer swydd yr Ymddiriedolwr Myfyriwr yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr Undeb y Myfyrwyr.

PWY SYDD AR FWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR?

Mae 15 aelod yn rhan o'r Bwrdd ac yn cyfarfod o leiaf pedwar gwaith y flwyddyn er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau. Mae Ymddiriedolwyr yn cael eu hethol (neu eu dethol) drwy'r meini prawf a sefydlwyd o fewn Erthyglau y Gymdeithas yr Undeb i sicrhau arweinyddiaeth myfyrwyr a recriwtio arbenigedd proffesiynol.

- Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn cynnwys
- Saith Ymddiriedolwr Sabothol
- Tri Ymddiriedolwr Myfyrwyr
- Dau Ymddiriedolwr Prifysgol a Enwebwyd
- Tri Ymddiriedolwr Allanol

YMDDIRIEDOLWYR SABOTHOL

Yr Ymddiriedolwyr Sabothol yw'r saith swyddog sabothol a etholir yn flynyddol sy'n ymddwyn fel cynrychiolwyr myfyrwyr sylfaenol yr Undeb a sy'n ymgymryd a phortffolio gyda chyfrifoldebau penodol. Mae swyddogion Sabothol yn weithwyr cyflogedig sy'n cymryd blwyddyn allan o'u astudiaethau, neu wedi iddynt gwblhau eu blwyddyn olaf i ymgymryd â'r rôl. Mae Llywydd yr Undeb yn Ymddiriedolwr Sabothol ac yn goruchwyllo gwaith swyddogion sabothol eraill. Mae Llywydd yr Undeb yn Gadeirydd ar y Bwrdd.

YMDDIRIEDOLWYR MYFYRWYR

Hon yw rôl y mae'r pecyn hwn yn gyfeirio ati. Mae Ymddiriedolwyr Myfyrwyr yn fyfyrwyr sy'n astudio sy'n ymgymryd â'r rôl ar sail gwirfoddol wrth gwblhau eu hastudiaethau a gallant wasanaethu am hyd at 2 flynedd. Mae Myfyrwyr wedi recriwtio drwy ddulliau hysbysebu a dethol megis cyfweiliad, ddim yn annhebyg i ymgeisio am swydd cyflogedig, a cânt eu recriwtio yn seiliedig ar eu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad.

YMDDIRIEDOLWYR A ENWEBIR GAN Y BRIFYSGOL

Mae'r Ymddiriedolwyr a Enwebir gan y Brifysgol yn cael eu henwebu gan Gyngor y Brifysgol, gyda o leiaf un ohonynt yn aelod presennol ar Gyngor y Brifysgol. Mae'r Ymddiriedolwyr a Enwebir gan y Brifysgol yn cynnig sgiliau proffesiynol i'r Bwrdd yn ogystal â dealltwriaeth wych o Brifysgol Caerdydd. Mae Ymddiriedolwyr a Enwebir gan y Brifysgol yn ymgymryd â'r rôl ar sail gwirfoddol am bedair blynedd a gallant wasanaethu am uchafswm o bedwar tymor.

YMDDIRIEDOLWYR ALLANOL

Mae'r Ymddiriedolwyr Allanol yn cael eu henwebu gan y Bwrdd yn seiliedig ar eu gwybodaeth broffesiynol, sgiliau a phrofiad y gallant ddod i'r Bwrdd. Mae Ymddiriedolwyr Allanol yn ymgymryd â'r rôl ar sail gwirfoddol ac yn aml yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol o fewn is-bwyllgorau y Bwrdd. Mae Ymddiriedolwyr Allanol yn gwasanaethu am dymor pedwar blynedd ac yn gallu gwasanaethu hyd at bedwar tymor.

Beth mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ei wneud?

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y strategaeth drwyddo draw, rheolaeth a chyllid Undeb y Myfyrwyr. Ffocws Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yw i sicrhau fod adnoddau Undeb y Myfyrwyr yn cael eu cymhwyso yn effeithiol ar gyfer ac i hyrwyddo eu bwriad a'u amcanion

MAE'R BWRDD YN GYFRIFOL AM:

- Rhoi cyfarwyddyd strategol, yn penderfynu ac yn diogelu cenhadaeth a gweledigaeth Undeb y Myfyrwyr
- Gwneud penderfyniadau sy'n ofynnol ar gyfer rheolaeth gwirioneddol a rheoli Undeb y Myfyrwyr
- Sicrhau fod yna strwythur clir ar gyfer llywodraethu y sefydliad, gan gynnwys diffinio rôl unrhyw grŵp ffocws, Pwyllgorau neu Is-bwyllgorau.
- Sicrhau fod gan yr Undeb adnoddau ariannol digonol ar gyfer eu gweithgareddau

- Sicrhau fod gan yr Undeb adnoddau ariannol digonol ar gyfer eu gweithgareddau
- Sicrhau fod yr Undeb yn cydymffurfio gyda'u dogfennau llywodraethu eu hunain, cyfraith berthnasol a'r gofynion a osodir ar arnynt gan eu noddwyr ac/neu gyrff eraill.
- Adolygu'r risgiau y mae'r Undeb yn agored i, gweithredu i leihau y risgiau hyn, ac i sicrhau rheolaeth risg gadarn
- Delio gyda apwyntio, aseiniad, arfarnu, graddio, ataliad, diswyddo a therfyniad talu ac amodau gwasanaeth y Prif Weithredwr ac wedi ymgynghori gyda'r Prif Weithredwr, aelodau yn yr Uwch Dîm Reoli.
- Ymddwyn fel cyflogwr cyfrifol
- Cyfansoddi Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau i gyflawni prif ddyletswyddau y Bwrdd yn effeithiol.



Manyleb yr Unigolyn

PROFIAD A CHEFNDIR	HYNOD DDYMUNOL	DYMUNOL
Tystiolaeth o weithio yn llwyddiannus mewn rôl arwain neu lywodraethol (gall hyn fod drwy weithio neu brofiad gwirfoddol)	×	
Profiad o ddelio yn llwyddiannus â materion strategol, gan gynnwys dehongli gwybodaeth cymhleth a chynllunio busnes		×
Profiad o weithio o fewn amgylchedd addysg neu wasanaethol		×
Profiad o ddatblygu diwylliant sydd yn cwrdd a gofynion ac yn ymwneud â, cwsmeriaid, staff a rhanddeiliaid mewn amgylchedd perfformiad uchel.		×
GWYBODAETH		
Dealltwriaeth o egwyddorion ac ymarferion rheoli, yn benodol, rheoli perfformiad a chynllunio busnes		×
Gwybodaeth o lywodraethu sefydliadau yn effeithiol (cyhoeddus, preifat neu'r trydydd sector)	×	
Dealltwriaeth o arferion gorau o fewn rheoli gweithgareddau wedi'u ffocysu ar gwsmeriaid		×
Gwybodaeth o ddeddfwriaeth perthnasol a gofynion statudol, yn cynnwys cyfraith elusennau, cyfraith cyflogaeth ac/neu cyfraith iechyd a diogelwch	×	
SGILIAU A GALLUOEDD		
Mae gofyn am hyder, gyda'r sgiliau a'r treiddgarwch i ddatblygu perthynas gynhyrchiol gyda ystod o rhanddeiliaid	×	
Mae meddwl clir a'r gallu i feddwl yn gorfforaethol ac yn strategol; y gallu i ddelio a blaenoriaethau cystadleuol a gwneud penderfyniadau gwybodus	×	
Sgiliau cyfathrebu cryf gyda'r gallu i ymagweddu ac i cyfathrebu yn effeithiol gyda phobl ar bob lefel	×	
Unigolyn dyfeisgar gyda hygredd oherwydd yr hyn mae'n nhw'n ei wneud a sut mae'n nhw'n ei wneud	×	
Y gallu i fynd i gyfarfodydd y Bwrdd o leiaf pedwar gwaith y flwyddyn	×	
Y gallu i weini fel aelod o a mynychu o leiaf dau Bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolwyr o leiaf pedwar gwaith y flwyddyn.	×	
GWERTHOEDD AC AGWEDDAU		
Arweinydd ar gyfle cyfartal sy'n gweld gwerth amrywiaeth a dileu rhwystrau i gydraddoldeb	×	
Esiampl gwych sy'n hyrwyddo uniondeb, cywirdeb a gonestrwydd o'r safon uchaf	×	
Arweinydd effeithiol sy'n ddigon cadarnhaol, penderfynol a gwydn i ddelio â gofynion y rôl	×	

Telerau ac Amodau

Mae'r swydd yn un di-dâl. Bydd y treuliau yn cael eu talu yn unol â pholisi Undeb y Myfyrwyr. Bydd eich tymor yn y rôl yn flwyddyn o hyd, o 1 Orffennaf 2019 ymlaen.

Efallai y cewch chi eich diswyddo o'r rôl drwy'r broses a amlinellir yn Erthyglau'r Gymdeithas.

Cynhelir cyfarfodydd mor gyson a sydd angen ar gyfer materion y Bwrdd, ond lleiafswm o bedwar gwaith bob blwyddyn academiaidd. Mae pwyllgorau hefyd yn cwrdd oddeutu pedwar gwaith y flwyddyn, ac mae disgwyl i Ymddiriedolwyr Myfyrwyr fod yn aelod o un Pwyllgor o leiaf. Bydd un Ymddiriedolwr Myfyriwr hefyd yn aelod o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Undeb Caerdydd Cyfyngedig, cwmni masnachu yr Undeb.

O dan Deddf Elusennau 2008, rydych chi yn anghymwys i fod yn Ymddiriedolwyr Myfyrwyr os:-

- Rydych chi yn iau na 18 mlwydd oed
- Rydych chi wedi eich cael yn euog o drosedd sy'n ymwneud ag anonestrodd a thwyll na ystyrid ei fod wedi darhod yn gyfreithiol.
- Rydych yn fethdalwr heb ei ollwng
- Rydych chi wedi cael eich diswyddo fel ymddiriedolwr elusen gan Gwrt neu gan Gomisiwn yr Elusennau
- Rydych chi wedi cael eich diarddel o dan y Ddeddfwriaeth Diarddeliad Cyfarwyddwyr Cwmnïau
- Rydych chi wedi gwneud trefniadau gyda unrhyw gredydwr ac nid ydych chi wedi cael eich rhyddhau

AMSERLEN RECRIWTIO

- Ceisiadau'n cau: 12.00 ganol dydd ar Dydd Gwener 3 Mai 2019
- Dyddiad Cyfweiliad: Dydd Mercher 8 Mai 2019
- Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu henwebu ar gyfer cadarnhau mewn Cyngor Myfyrwyr ar 14 Mai 2019
- Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ar y rôl yr ymddiriedolwyr yn y [Comisiwn Elusennol](#) neu [Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol](#) (NCVO).





CARDIFFSTUDENTS.COM